



OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 24

Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a
Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol
(Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol) (Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) 2026

Gwnaed

4 Chwefror 2026

Yn dod i rym

1 Ebrill 2026

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 24

The Recognition of Professional Qualifications and
Implementation of International Recognition Agreements
(Regulation and Inspection of Social Care) (Miscellaneous
Amendments) (Wales) Regulations 2026

Made

4 February 2026

Coming into force

1 April 2026



OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 24

CYMWYSTERAU PROFFESIYNOL, CYMRU

Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a
Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol
(Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol) (Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth o dan adran 3(1) a (2) o Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 (p. 20) ("Deddf 2022") i ddiwygio Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) ("Deddf 2016") mewn perthynas â gweithredu o ran Cymru ddarpariaethau sy'n ymwneud â chydabod cymwysterau proffesiynol sydd wedi eu cynnwys yn:

- y cytundeb masnach rydd rhwng Gwlad yr Iâ, Tywysogaeth Liechtenstein a Theyrnas Norwy a Theyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a wnaed yn Llundain ar 8 Gorffennaf 2021 ("cytundeb masnach rydd yr AEE EFTA"), a
- y Cytundeb rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Chyddfederasiwn y Swistir ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol a wnaed yn Llundain ar 14 Mehefin 2023 ("Cytundeb y Swistir").

Mae adran 3 o Ddeddf 2022 yn rhoi'r pŵer i'r "appropriate national authority" ("awdurdod cenedlaethol priodol") drwy reoliadau i wneud unrhyw ddarpariaeth y mae'r awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol at ddiben gweithredu unrhyw gytundeb cydnabod rhyngwladol y mae'r Deyrnas Unedig yn barti iddo, neu mewn cysylltiad â gweithredu unrhyw gytundeb o'r fath; mae adran 16 o Ddeddf 2022 yn gwneud darpariaeth ynghylch pwy sy'n awdurdod cenedlaethol priodol.

Drwy arfer y pwerau hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023 (O.S. 2023/1294 (Cy. 230)) ("Rheoliadau 2023") a Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol

(Diwygio) (Estyn i'r Swistir a Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2024 (O.S. 2024/1183 (Cy. 194)) ("Rheoliadau 2024").

Gwnaeth Rheoliadau 2023 ddarpariaeth a oedd yn cynnwys gweithredu cytundeb masnach rydd yr AEE EFTA mewn perthynas â rheoleiddio'r proffesiynau y mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â hwy ("proffesiynau rheoleiddiedig Cymreig").

Diwygiwyd Rheoliadau 2023 gan Reoliadau 2024 at ddiben gweithredu Cytundeb y Swistir mewn perthynas â'r "proffesiynau rheoleiddiedig Cymreig", ac mewn cysylltiad â hynny.

Diffinnir "proffesiwn rheoleiddiedig Cymreig" yn rheoliad 2 o Reoliadau 2023 ac yn Atodlen 1 iddynt ac mae'n cynnwys y proffesiynolion gofal cymdeithasol a reoleiddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru.

Sefydlodd Rhannau 3 i 8 o Ddeddf 2016 Ofal Cymdeithasol Cymru fel y corff sy'n rheoleiddio'r proffesiwn gofal cymdeithasol yng Nghymru (cyfeirir at y proffesiwn hwnnw fel "gweithwyr gofal cymdeithasol" yn y Ddeddf honno), ac maent yn gwneud darpariaeth ynghylch cofrestru ac addasrwydd gweithwyr o'r fath i ymarfer yng Nghymru.

Mae rheoliadau 2 i 15 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 2016 i roi effaith, o fewn y fframwaith a sefydlwyd ar gyfer rheoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru, i'r darpariaethau sy'n ymwneud â chydabod cymwysterau proffesiynol sydd wedi eu cynnwys yng nghytundeb masnach rydd yr AEE EFTA ac yng Nghytundeb y Swistir.

Mae rheoliad 16 yn gwneud diwygiadau i Atodlen 1 i Reoliadau 2023 er mwyn hepgor gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru o'r rhestr o broffesiynau sydd wedi eu cynnwys yn yr Atodlen honno. Effaith y diwygiad hwn yw y bydd rheoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol gan Ofal Cymdeithasol Cymru y tu allan i gwmpas y gofynion rheoleiddiol sydd wedi eu cynnwys yn Rheoliadau 2023.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 24

CYMWYSTERAU PROFFESIYNOL, CYMRU

Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

Gwnaed

4 Chwefror 2026

Yn dod i rym

1 Ebrill 2026

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 3(1) a (2), a 13(1) o Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022(1) ("Deddf 2022"), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 14 o Ddeddf 2022, mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw'r Rheoliadau yn dileu gallu Gofal Cymdeithasol Cymru(2) i atal unigolion sy'n anaddas i ymarfer fel gweithwyr gofal cymdeithasol rhag gwneud hynny, ac na fydd y Rheoliadau yn cael effaith andwyol sylweddol ar y proffesiwn gofal cymdeithasol o ran gwybodaeth, sgiliau neu brofiad yr unigolion sy'n ei ymarfer.

Yn unol ag adran 15 o Ddeddf 2022, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Gofal Cymdeithasol Cymru fel rheoleiddiwr gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gosod gerbron Senedd Cymru yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd, o dan adran 18(1), (6)(b) a (8) o Ddeddf 2022.

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2026.

(1) 2022 p. 20. *Gweler* adran 16 am y diffiniad o "appropriate national authority" ac adran 3(4) am y diffiniad o "international recognition agreement".

(2) *Gweler* adran 67 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) ("Deddf 2016"). Diddymodd adran 67(1) o'r Ddeddf honno adran 54 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p. 14), ond parhawyd â bodolaeth y corff corfforaethol a sefydlwyd ganddi (Cyngor Gofal Cymru) ac fe'i hailenwyd yn Ofal Cymdeithasol Cymru (y cyfeirir ato yn Neddf 2016 fel GCC) gan adran 67(1) a (2) yn y drefn honno. Cafodd swyddogaethau gwreiddiol y corff corfforaethol eu hailddatgan, eu haddasu yn ôl yr angen, ac ychwanegwyd atynt gan Ddeddf 2016.

Diwygio Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

2. Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

3. Yn adran 66 (dehongli Rhannau 3 i 8)(3), yn y lleoedd priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

“ystyr “cyfnod ymaddasu” (*“adaptation period”*) yw cyfnod o ymarfer o dan oruchwyliaeth, o dan gyfrifoldeb gweithiwr gofal cymdeithasol sydd wedi ei gymhwyso'n briodol, yn ddarostyngedig i unrhyw asesiad, ac y gall hyfforddiant pellach ddod gydag ef;”;

“ystyr “cymwysterau proffesiynol” (*“professional qualifications”*) yw cymwysterau a ardystir gan dystiolaeth o gymwysterau ffurfiol neu brofiad proffesiynol;”;

“ystyr “gofynion cofrestru eraill” (*“other registration requirements”*) yw'r gofynion a grybwyllir yn adran 83(2)(b) ac (c);”;

“ystyr “gwladwriaeth benodedig” (*“specified state”*) yw—

- (a) Gwlad yr Iâ,
- (b) Teyrnas Norwy,
- (c) Tywysogaeth Liechtenstein, a
- (d) Cydffederasiwn y Swistir;”;

“ystyr “prawf gallu” (*“aptitude test”*) yw prawf a gynhelir gan GCC, sydd wedi ei gyfyngu i'r wybodaeth broffesiynol sydd gan broffesiynolyn gwladwriaeth benodedig, gyda'r nod o asesu ei allu i ymarfer fel gweithiwr gofal cymdeithasol o'r disgrifiad y mae ei gais yn ymwneud ag ef;”;

“ystyr “proffesiynolyn gwladwriaeth benodedig” (*“specified state professional”*) yw unigolyn sydd wedi cael cymwysterau proffesiynol mewn gwladwriaeth benodedig;”;

“ystyr “tystiolaeth o gymwysterau ffurfiol” (*“evidence of formal qualifications”*) yw unrhyw ddiploma, unrhyw dystysgrif neu unrhyw dystiolaeth arall a ddyroddir gan gorff mewn gwladwriaeth benodedig y mae ei weithgareddau arferol yn cynnwys dyroddi cofnodion o'r fath sy'n ardystio bod cwrs astudiaeth broffesiynol neu gwrs hyfforddiant proffesiynol wedi ei gwblhau'n llwyddiannus;”;

“mae “wedi ei gymhwyso'n briodol” (*“appropriately qualified”*) i'w ddehongli yn unol ag adran 84;”;

“ystyr “ymgeisydd gwladwriaeth benodedig” (*“specified state applicant”*) yw proffesiynolyn gwladwriaeth benodedig—

- (a) sy'n dymuno cael mynediad at waith fel gweithiwr gofal cymdeithasol yng Nghymru, a dilyn y gwaith hwnnw, a
- (b) sy'n gwneud cais o dan adran 82 i gofrestru yn y rhan gweithwyr cymdeithasol neu mewn rhan ychwanegol o'r gofrestr;”.

4. Ar ôl adran 71 (ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithwyr gofal cymdeithasol) mewnosoder—

(3) Y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

“Darparu gwybodaeth – proffesiynolion gwladwriaeth benodedig

71A.—(1) Rhaid i GCC ddarparu, ar gais, wybodaeth i broffesiynolyn gwladwriaeth benodedig am y materion a ganlyn—

- (a) y cymwysterau proffesiynol sy'n ofynnol i ymarfer fel gweithiwr gofal cymdeithasol yng Nghymru,
- (b) manylion unrhyw ofynion cofrestru sy'n gymwys mewn perthynas â chais i gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol yng Nghymru,
- (c) y deddfau perthnasol sydd i'w cymhwyso gan gynnwys y rhai ynghylch camau disgyblu, cyfrifoldeb ariannol neu atebolrwydd ariannol,
- (d) egwyddorion disgyblaeth a gorfodi safonau proffesiynol, gan gynnwys awdurdodaeth ddisgyblu ac effeithiau canlyniadol ar ymarfer fel gweithiwr gofal cymdeithasol yng Nghymru,
- (e) y prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer gwirhau'n barhaus addasrwydd i ymarfer, a
- (f) y meini prawf ar gyfer dileu cofnod o'r gofrestr a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â dileu cofnod o'r gofrestr (gweler Rhan 4).

(2) Rhaid i GCC ymdrin yn brydlon ag ymholiad gan broffesiynolyn gwladwriaeth benodedig ynghylch y materion y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(a) a (b).”

5. Yn adran 74 (rheolau: ffioedd)(4), ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

“(2A) Ond rhaid i unrhyw ffioedd a godir mewn cysylltiad â chais ar gyfer cofrestru yn y gofrestr a gyflwynir gan ymgeisydd gwladwriaeth benodedig—

- (a) bod yn rhesymol ac yn gymesur â chost y cais;
- (b) bod yn dryloyw, ac wedi eu cyhoeddi ymlaen llaw;
- (c) bod yn daladwy drwy ddulliau electronig drwy wefan GCC.”

6. Yn adran 83 (cofrestru), yn is-adran (2), yn lle paragraff (a) rhodder—

“(a) bod y person—

- (i) wedi ei gymhwyso'n briodol (gweler adran 84), neu
- (ii) yn ymgeisydd gwladwriaeth benodedig y mae ei gymwysterau proffesiynol wedi eu cydnabod yn unol ag adran 85B,”.

7. Yn adran 84 (“wedi ei gymhwyso'n briodol”), yn y geiriau agoriadol, yn lle “At ddibenion adran 83” rhodder “Yn y Rhan hon ac yn Rhan 2”.

8. Yn adran 85 (cymwysterau a geir y tu allan i Gymru – gweithwyr cymdeithasol), o flaen is-adran (2) mewnosoder—

“(1A) Nid yw'r adran hon yn gymwys i gais ar gyfer cofrestru yn y rhan gweithiwr cymdeithasol o'r gofrestr a gyflwynir gan ymgeisydd gwladwriaeth benodedig.”

9. Ar ôl adran 85 mewnosoder—

(4) Hepgorwyd is-adran (3) gan O.S. 2019/761 (Cy. 144).

“Cymwysterau proffesiynol – ymgeiswyr gwladwriaeth benodedig

85B.—(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo ymgeisydd gwladwriaeth benodedig yn cyflwyno cais ar gyfer cofrestru.

(2) Yn ddarostyngedig i adran 85C, rhaid i'r cofrestrydd gydnabod cymwysterau proffesiynol yr ymgeisydd os yw wedi ei fodloni bod y cymwysterau proffesiynol hynny'n gymaradwy â'r rhai sy'n ofynnol i ymarfer yng Nghymru waith personau sydd wedi eu cofrestru yn y rhan o'r gofrestr y mae'r cais yn ymwneud â hi.

Ymgeiswyr gwladwriaeth benodedig: gwrthod cydnabod cymwysterau proffesiynol

85C.—(1) Ni chaiff y cofrestrydd wrthod cydnabod cymwysterau proffesiynol ymgeisydd gwladwriaeth benodedig ond os bodlonir un neu ragor o Amodau 1, 2, 3 neu 4.

(2) Mae Amod 1 wedi ei fodloni—

- (a) pan fo gwahaniaeth sylweddol rhwng y safon hyfedredd y darperer tystiolaeth ohoni gan gymwysterau proffesiynol yr ymgeisydd a'r safon hyfedredd y mae'n angenrheidiol i berson ei chyflawni i gael ei dderbyn i'r rhan o'r gofrestr y mae'r cais yn ymwneud â hi, a
- (b) pan fo'r ymgeisydd yn methu prawf gallu, neu'n gwrthod ei sefyll, neu'n methu â chwblhau cyfnod ymaddasu a osodwyd yn unol ag adran 85D.

(3) Mae Amod 2 wedi ei fodloni—

- (a) pan fo gwaith personau sydd wedi eu cofrestru yn y rhan o'r gofrestr y mae'r cais yn ymwneud â hi yn cynnwys un neu ragor o weithgareddau proffesiynol sy'n cwmpasu materion sy'n sylweddol wahanol i'r rhai a gwmpesir gan gymwysterau proffesiynol yr ymgeisydd, a
- (b) pan fo'r ymgeisydd yn methu prawf gallu, neu'n gwrthod ei sefyll, neu'n methu â chwblhau cyfnod ymaddasu a osodwyd yn unol ag adran 85D.

(4) Mae Amod 3 wedi ei fodloni pan fyddai ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd sefyll prawf gallu neu gwblhau cyfnod ymaddasu yn unol ag adran 85D yn gyfystyr â'i gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd gaffael y cymwysterau proffesiynol sy'n ofynnol er mwyn ymarfer gwaith personau sydd wedi eu cynnwys yn y rhan o'r gofrestr y mae'r cais yn ymwneud â hi.

(5) Mae Amod 4 wedi ei fodloni pan na fo'r ymgeisydd yn gallu bodloni unrhyw un neu ragor o'r gofynion cofrestru eraill mewn perthynas â'r rhan o'r gofrestr y mae'r cais yn ymwneud â hi.

Ymgeiswyr gwladwriaeth benodedig: profion gallu a chyfnodau ymaddasu

85D.—(1) Caiff y cofrestrydd ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd gwladwriaeth benodedig sefyll prawf gallu, wedi ei safoni neu fel arall, neu gwblhau cyfnod ymaddasu—

- (a) pan fo gwahaniaeth sylweddol rhwng cymwysterau proffesiynol yr ymgeisydd a'r wybodaeth hanfodol neu'r sgiliau hanfodol sy'n ofynnol er mwyn ymarfer gwaith personau sydd wedi eu cofrestru yn y rhan o'r gofrestr y mae'r cais yn ymwneud â hi, neu
- (b) pan fo gwaith personau sydd wedi eu cofrestru yn y rhan o'r gofrestr y mae'r cais yn ymwneud â hi yn cynnwys un neu ragor o weithgareddau

proffesiynol sy'n cwmpasu materion sy'n sylweddol wahanol i'r rhai a gwmpesir gan gymwysterau proffesiynol yr ymgeisydd.

(2) Rhaid i'r cofrestrydd ystyried a yw unrhyw ofyniad i sefyll prawf gallu neu i gwblhau cyfnod ymaddasu yn gymesur â'r gwahaniaeth y ceisir ei ddatrys.

(3) Os yw'r ymgeisydd yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i'r cofrestrydd, i'r graddau y bo'n bosibl, ddarparu ei resymau yn ysgrifenedig dros ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd sefyll prawf gallu neu i gwblhau cyfnod ymaddasu.

(4) Pan fo'r cofrestrydd yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd ymgymryd â phrawf gallu, rhaid i'r cofrestrydd sicrhau bod profion o'r fath yn cael eu hamserlennu ag amlder rhesymol ac o leiaf unwaith y flwyddyn."

10. Yn adran 88 (rheolau ynghylch ceisiadau ar gyfer cofrestru neu adnewyddu), ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

"(5) Ond mae'r pŵer i wneud rheolau o dan is-adrannau (1) a (3)(a) yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth a wneir gan adrannau 85B ac 88A mewn perthynas â cheisiadau ar gyfer cofrestru a wneir gan ymgeiswyr gwladwriaeth benodedig."

11. Ar ôl adran 88 (rheolau ynghylch ceisiadau ar gyfer cofrestru neu adnewyddu) mewnosoder—

"Ceisiadau ar gyfer cofrestru: ymgeiswyr gwladwriaeth benodedig – darpariaethau atodol

88A.—(1) Mewn perthynas â cheisiadau ar gyfer cofrestru ymgeisydd gwladwriaeth benodedig, rhaid i'r cofrestrydd—

(a) o fewn un mis sy'n dechrau â'r dyddiad y ceir y cais—

(i) cydnabod ei fod wedi cael y cais, a

(ii) rhoi gwybod i'r ymgeisydd am unrhyw ddogfen sydd ar goll at ddibenion y cais;

(b) rhoi digon o amser i'r ymgeisydd i gwblhau gofynion a gweithdrefnau'r broses o wneud cais;

(c) ymdrin â'r cais yn brydlon.

(2) Caiff y cofrestrydd ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o'i gymwysterau proffesiynol a'i allu i fodloni'r gofynion cofrestru eraill.

(3) Ond ni chaiff unrhyw dystiolaeth sy'n ofynnol o dan is-adran (2) fod yn ddim mwy nag sy'n angenrheidiol i ddangos—

(a) bod y cymwysterau proffesiynol a ddelir gan yr ymgeisydd yn dystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi cyrraedd safon hyfedredd sy'n gymaradwy â'r gofynion a grybwyllir yn adran 84 ("wedi ei gymhwyso'n briodol") mewn perthynas â'r rhan o'r gofrestr y mae'r cais yn ymwneud â hi, a

(b) bod yr ymgeisydd yn gallu bodloni'r gofynion cofrestru eraill.

(4) At ddibenion is-adran (2), rhaid i'r cofrestrydd dderbyn copïau ardystiedig yn lle dogfennau gwreiddiol (oni bai bod dogfennau gwreiddiol yn ofynnol yn rhesymol i ddiogelu uniondeb y broses gofrestru).

(5) At ddibenion is-adran (4), copi ardystiedig o ddogfen yw un yr ardystiwyd ei fod yn wir gopi o'r gwreiddiol gan gyfreithiwr sy'n ymarfer mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig."

12. Yn adran 89 (hysbysiad o benderfyniadau mewn cysylltiad â chofrestru neu adnewyddu), ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

“(5) Pan fo cais i gofrestru o dan adran 82 wedi ei gyflwyno gan ymgeisydd gwladwriaeth benodedig, rhaid i'r cofrestrydd roi hysbysiad o'r penderfyniad o dan is-adran (2) neu (4) i'r person y mae'r cais yn ymwneud ag ef heb fod yn hwyrach na phedwar mis ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd y cais cyflawn.

(6) Pan fo'r cofrestrydd yn methu â rhoi hysbysiad o benderfyniad o fewn y cyfnod amser a bennir yn is-adran (5), mae'r methiant hwnnw i'w drin at ddibenion Rhannau 3, 4 ac 8 fel penderfyniad gan y cofrestrydd.”

13. Yn adran 101 (apelau yn erbyn penderfyniadau'r cofrestrydd), ar ôl is-adran 1 mewnosoder—

“(1A) Caiff ymgeisydd gwladwriaeth benodedig wneud apêl i banel apelau cofrestru pan fo'r cofrestrydd wedi methu â rhoi hysbysiad o'r penderfyniad o dan is-adran (2) neu (4) o adran 89 o fewn y cyfnod amser a bennir yn is-adran (5) o'r adran honno.”

14. Yn adran 102 (apelau i'r panel apelau cofrestru: y weithdrefn), yn is-adran (4)—

- (a) hepgorer yr “ac” ar ôl paragraff (b);
- (b) ym mharagraff (c), yn lle “.” rhodder “, a”;
- (c) ar ôl paragraff (c) mewnosoder—

“(d) yn achos apêl o dan adran 101(1A), y diwrnod ar ôl i'r cyfnod amser a bennir yn adran 89(5) ddod i ben.”

15. Yn adran 103 (penderfyniadau ar apêl i'r panel apelau cofrestru)—

- (a) daw'r ddarpariaeth bresennol yn is-adran (1);
- (b) yn is-adran (1), ar y dechrau mewnosoder “Yn ddarostyngedig i is-adran (2),”;
- (c) ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

“(2) Pan wneir apêl o dan adran 101(1A), rhaid i banel apelau cofrestru anfon yr achos yn ôl at y cofrestrydd i'w waredu yn unol â chyfarwyddydau'r panel.”

Diwygio Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023

16.—(1) Mae Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023(5) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1 (y proffesiynau rheoleiddiedig Cymreig y cyfeirir atynt yn rheoliad 2 (dehongli)), hepgorer y cofnodion a ganlyn—

- (a) “8. Rheolwr gofal cymdeithasol”
- (b) “9. Gweithiwr cymdeithasol”
- (c) “10. Gweithiwr gofal cymdeithasol mewn—
 - (a) gwasanaeth cartref gofal
 - (b) gwasanaeth cymorth cartref
 - (c) gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd

(5) O.S. 2023/1294 (Cy. 230), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2024/613 (Cy. 87) ac O.S. 2024/1183 (Cy. 194).

(d) gwasanaeth llety diogel”

Dawn Bowden

Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros
Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
4 Chwefror 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa
Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.



W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 24

PROFESSIONAL QUALIFICATIONS, WALES

**The Recognition of Professional Qualifications and
Implementation of International Recognition Agreements
(Regulation and Inspection of Social Care) (Miscellaneous
Amendments) (Wales) Regulations 2026**

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make provision under section 3(1) and (2) of the Professional Qualifications Act 2022 (c. 20) (“the 2022 Act”) to amend the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2) (“the 2016 Act”) in relation to the implementation in relation to Wales of provisions relating to the recognition of professional qualifications contained in:

- (a) the free trade agreement between Iceland, the Principality of Liechtenstein and the Kingdom of Norway and the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland done at London on 8 July 2021 (“the EEA EFTA free trade agreement”), and
- (b) the Agreement between the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland and the Swiss Confederation on Recognition of Professional Qualifications done at London on 14 June 2023 (“the Swiss Agreement”).

Section 3 of the 2022 Act gives the “appropriate national authority” the power by regulations to make such provision as the authority considers appropriate for the purpose of, or in connection with, implementing any international recognition agreement to which the United Kingdom is a party; section 16 of the 2022 Act makes provision about who is an appropriate national authority.

In exercise of these powers, the Welsh Ministers have made the Recognition of Professional Qualifications and Implementation of International Recognition Agreements (Wales) (Amendment etc.) Regulations 2023 (S.I. 2023/1294 (W. 230)) (“the 2023 Regulations”) and the Recognition of Professional Qualifications and Implementation of International Recognition Agreements (Amendment) (Extension to Switzerland and

Miscellaneous Provisions) (Wales) Regulations 2024 (S.I. 2024/1183 (W. 194)) (“the 2024 Regulations”).

The 2023 Regulations made provision which included the implementation of the EEA EFTA free trade agreement in relation to the regulation of the professions in respect of which the Senedd has legislative competence (“Welsh regulated professions”).

The 2024 Regulations amended the 2023 Regulations for the purpose of, and in connection with, implementing the Swiss Agreement in relation to the “Welsh regulated professions”.

“Welsh regulated profession” is defined in regulation 2 of and Schedule 1 to the 2023 Regulations and includes the social care professionals who are regulated by Social Care Wales.

Parts 3 to 8 of the 2016 Act established Social Care Wales as the body that regulates the social care profession in Wales (that profession is referred to as “social care workers” in that Act), and they make provision about the registration and fitness of such workers to practise in Wales.

Regulations 2 to 15 make amendments to the 2016 Act to give effect, within the framework established for the regulation of social care workers in Wales, to the provisions relating to the recognition of professional qualifications contained in the EEA EFTA free trade agreement and the Swiss Agreement.

Regulation 16 makes amendments to Schedule 1 to the 2023 Regulations to omit social care workers in Wales from the list of professions contained in that Schedule. The effect of this amendment is that the regulation of social care workers by Social Care Wales will be outside the scope of the regulatory requirements contained in the 2023 Regulations.

The Welsh Minister’s Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2026 No. 24

PROFESSIONAL QUALIFICATIONS, WALES

The Recognition of Professional Qualifications and Implementation of International Recognition Agreements (Regulation and Inspection of Social Care) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2026

Made

4 February 2026

Coming into force

1 April 2026

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 3(1) and (2), and 13(1) of the Professional Qualifications Act 2022⁽¹⁾ (“the 2022 Act”), make the following Regulations.

In accordance with section 14 of the 2022 Act, the Welsh Ministers are satisfied that the Regulations do not remove the ability of Social Care Wales⁽²⁾ to prevent individuals who are unfit to practise as social care workers from doing so, and that the Regulations will not have a material adverse effect on the social care profession in terms of the knowledge, skills or experience of the individuals practising it.

In accordance with section 15 of the 2022 Act, the Welsh Ministers have consulted Social Care Wales as the regulator of social care workers in Wales.

These Regulations have been laid before Senedd Cymru in accordance with the Senedd approval procedure under section 18(1), (6)(b) and (8) of the 2022 Act.

Title and coming into force

1. The title of these Regulations is the Recognition of Professional Qualifications and Implementation of International Recognition Agreements (Regulation and Inspection of Social Care) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2026 and they come into force on 1 April 2026.

(1) 2022 c. 20. See section 16 for the definition of “appropriate national authority” and section 3(4) for the definition of “international recognition agreement”.

(2) See section 67 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2) (“the 2016 Act”). Section 67(1) of that Act repealed section 54 of the Care Standards Act 2000 (c. 14), but the corporate body it established (the Care Council for Wales) was continued and renamed as Social Care Wales (referred to in the 2016 Act as SCW) by section 67(1) and (2) respectively. The original functions of the corporate body were restated, modified as required, and added to by the 2016 Act.

Amendments to the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016

2. The Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 is amended as follows.

3. In section 66 (interpretation of Parts 3 to 8)(3), in the appropriate places in alphabetical order insert—

“adaptation period” (*cyfnod ymaddasu*) means a period of supervised practise, under the responsibility of an appropriately qualified social care worker, subject to any assessment, and which may be accompanied by further training;”;

“appropriately qualified” (*wedi ei gymhwyso'n briodol*) is to be interpreted in accordance with section 84;”;

“aptitude test” (*prawf gallu*) means a test conducted by SCW, limited to the professional knowledge of a specified state professional, with the aim of assessing their ability to practise as a social care worker of the description to which their application relates;”;

“evidence of formal qualifications” (*tystiolaeth o gymwysterau ffurfiol*) means any diploma, certificate or other evidence issued by a body in a specified state whose ordinary activities include the issuing of such records certifying the successful completion of a course of professional study or training;”;

“other registration requirements” (*gofynion cofrestru eraill*) means the requirements mentioned in section 83(2)(b) and (c);”;

“professional qualifications” (*cymwysterau proffesiynol*) means qualifications attested by evidence of formal qualifications or professional experience;”;

“specified state” (*gwladwriaeth benodedig*) means—

- (a) Iceland,
- (b) The Kingdom of Norway,
- (c) The Principality of Liechtenstein, and
- (d) The Swiss Confederation;”;

“specified state applicant” (*ymgeisydd gwladwriaeth benodedig*) means a specified state professional who—

- (a) wishes to access and pursue work as a social care worker in Wales, and
- (b) applies under section 82 for registration in the social worker part or an added part of the register;”;

“specified state professional” (*proffesiynolyn gwladwriaeth benodedig*) means an individual who has obtained professional qualifications in a specified state;”.

4. After section 71 (engagement with the public and social care workers) insert—

“Provision of information – specified state professionals

71A.—(1) SCW must provide, upon request, information to a specified state professional about the following matters—

(3) To which there are amendments not relevant to these Regulations.

- (a) the professional qualifications required to practise as a social care worker in Wales,
- (b) details of any registration requirements that apply in relation to an application for registration as a social care worker in Wales,
- (c) the relevant laws to be applied including those regarding disciplinary action, financial responsibility or financial liability,
- (d) the principles of discipline and enforcement of professional standards, including disciplinary jurisdiction and consequential effects on practise as a social care worker in Wales,
- (e) the processes and procedures for the ongoing verification of fitness to practise, and
- (f) the criteria for, and procedures relating to, removal from the register (see Part 4).

(2) SCW must deal promptly with an enquiry from a specified state professional about the matters referred to in subsection (1)(a) and (b)."

5. In section 74 (rules: fees)(4), after subsection (2) insert—

"(2A) But any fees charged in connection with an application for registration in the register submitted by a specified state applicant must be—

- (a) reasonable and proportionate to the cost of the application;
- (b) transparent, and made public in advance;
- (c) payable by electronic means through SCW's website."

6. In section 83 (registration), in subsection (2), for paragraph (a) substitute—

"(a) the person is—

- (i) appropriately qualified (see section 84), or
- (ii) a specified state applicant whose professional qualifications have been recognised in accordance with section 85B,".

7. In section 84 ("appropriately qualified"), in the opening words, for "For the purposes of section 83" substitute "In this Part and in Part 2".

8. In section 85 (qualifications gained outside Wales – social workers), before subsection (2) insert—

"(1A) This section does not apply to an application for registration in the social worker part of the register submitted by a specified state applicant."

9. After section 85 insert—

"Professional qualifications – specified state applicants

85B.—(1) This section applies where a specified state applicant submits an application for registration.

(2) Subject to section 85C, the registrar must recognise the applicant's professional qualifications if satisfied those professional qualifications are comparable to those

(4) Subsection (3) was omitted by S.I. 2019/761 (W. 144).

required to practise in Wales the work of persons registered in the part of the register to which the application relates.

Specified state applicants: refusal to recognise professional qualifications

85C.—(1) The registrar may refuse to recognise the professional qualifications of a specified state applicant only if one or more of Conditions 1, 2, 3 or 4 is met.

(2) Condition 1 is met where—

- (a) there exists a substantial difference between the standard of proficiency evidenced by the applicant's professional qualifications and the standard of proficiency that is necessary for a person to achieve for admission to the part of the register in respect of which the application relates, and
- (b) the applicant fails, or refuses to take, an aptitude test, or to complete an adaptation period imposed in accordance with section 85D.

(3) Condition 2 is met where—

- (a) the work of persons registered in the part of the register to which the application relates comprises one or more professional activities that cover substantially different matters from those covered by the applicant's professional qualifications, and
- (b) the applicant fails, or refuses to take, an aptitude test, or to complete an adaptation period, imposed in accordance with section 85D.

(4) Condition 3 is met where requiring the applicant to take an aptitude test or to complete an adaptation period in accordance with section 85D would amount to requiring the applicant to acquire the professional qualifications required to practise the work of persons included in the part of the register to which the application relates.

(5) Condition 4 is met where the applicant is unable to satisfy any of the other registration requirements in relation to the part of the register to which the application relates.

Specified state applicants: aptitude tests and adaptation periods

85D.—(1) The registrar may require a specified state applicant to take an aptitude test, standardised or otherwise, or to complete an adaptation period where—

- (a) there exists a substantial difference between the applicant's professional qualifications and the essential knowledge or essential skills required to practise the work of persons registered in the part of the register to which the application relates, or
- (b) the work of persons registered in the part of the register to which the application relates comprises one or more professional activities that cover substantially different matters from those covered by the applicant's professional qualifications.

(2) The registrar must consider whether any requirement to take an aptitude test or to complete an adaptation period is proportionate to the difference sought to be addressed.

(3) If requested to do so by the applicant, the registrar must, to the extent possible, provide reasons in writing for requiring the applicant to take an aptitude test or to complete an adaptation period.

(4) Where the registrar requires an applicant to undertake an aptitude test, the registrar must ensure that such tests are scheduled with reasonable frequency and at least once a year.”

10. In section 88 (rules about applications for registration or renewal), after subsection (4) insert—

“(5) But the power to make rules under subsections (1) and (3)(a) is subject to the provision made by sections 85B and 88A in relation to applications for registration made by specified state applicants.”

11. After section 88 (rules about applications for registration or renewal) insert—

“Applications for registration: specified state applicants – supplementary provisions

88A.—(1) In relation to applications for the registration of a specified state applicant, the registrar must—

- (a) within one month beginning with the date of receipt of the application—
 - (i) acknowledge receipt of the application, and
 - (ii) inform the applicant of any missing document for the purposes of the application;
- (b) give the applicant adequate time to complete the requirements and procedures of the application process;
- (c) deal promptly with the application.

(2) The registrar may require the applicant to provide evidence of their professional qualifications and their ability to satisfy the other registration requirements.

(3) But any evidence required under subsection (2) must be no more than is necessary to demonstrate —

- (a) the professional qualifications the applicant holds are evidence of the applicant having reached a standard of proficiency comparable to the requirements mentioned in section 84 (“appropriately qualified”) in relation to the part of the register to which the application relates, and
- (b) the applicant is able to satisfy the other registration requirements.

(4) For the purposes of subsection (2), the registrar must accept certified copies in place of original documents (unless original documents are reasonably required to protect the integrity of the registration process).

(5) For the purposes of subsection (4), a certified copy of a document is one which has been certified to be a true copy of the original by a solicitor practising in any part of the United Kingdom.”

12. In section 89 (notice of decisions in respect of registration or renewal), after subsection (4) insert—

“(5) Where an application for registration under section 82 has been submitted by a specified state applicant, the registrar must give notice of the decision under subsection (2) or (4) to the person to whom the application relates no later than four months after the date on which the complete application was submitted.

(6) Where the registrar fails to give notice of a decision within the time period specified in subsection (5), that failure is to be treated for the purposes of Parts 3, 4 and 8 as a decision of the registrar.”

13. In section 101 (appeals against decisions of the registrar), after subsection 1 insert—

“(1A) A specified state applicant may appeal to a registration appeals panel where the registrar has failed to give notice of the decision under subsection (2) or (4) of section 89 within the time period specified in subsection (5) of that section.”

14. In section 102 (appeals to the registration appeals panel: procedure), in subsection (4)—

- (a) omit the “and” after paragraph (b);
- (b) in paragraph (c), for “.” substitute “, and”;
- (c) after paragraph (c) insert—

“(d) in the case of an appeal under section 101(1A), the day after the expiry of the time period specified in section 89(5).”

15. In section 103 (decisions on appeal to the registration appeals panel)—

- (a) the existing provision becomes subsection (1);
- (b) in subsection (1), at the beginning insert “Subject to subsection (2),”;
- (c) after subsection (1) insert—

“(2) Where an appeal is made under section 101(1A), a registration appeals panel must remit the case to the registrar to dispose of in accordance with the directions of the panel.”

Amendments to the Recognition of Professional Qualifications and Implementation of International Recognition Agreements (Wales) (Amendment etc.) Regulations 2023

16.—(1) The Recognition of Professional Qualifications and Implementation of International Recognition Agreements (Wales) (Amendment etc.) Regulations 2023⁽⁵⁾ are amended as follows.

(2) In Schedule 1 (the Welsh regulated professions referred to in regulation 2 (interpretation)), omit the following entries—

- (a) “8. Social care manager”
- (b) “9. Social worker”
- (c) “10. Social care worker in a—
 - (a) care home service
 - (b) domiciliary support service
 - (c) residential family centre service
 - (d) secure accommodation service”

(5) S.I. 2023/1294 (W. 230), as amended by S.I. 2024/613 (W. 87) and S.I. 2024/1183 (W. 194).

Dawn Bowden
Minister for Children and Social Care under authority of the Cabinet Secretary for Health
and Social Care, one of the Welsh Ministers
4 February 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.



a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebionf ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail

TSO


PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

E-mail: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839794-9



9 780348 397949